Hanes creu y byd

Gensis 1, 2

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Gensis 1, 2		
1	Ar y dechrau cyntaf, dyma Duw yn creu y bydysawd a'r ddaear. Roedd y ddaear yn anhrefn gwag, ac roedd hi'n hollol dywyll dros y dŵr dwfn. Ond roedd Ysbryd Duw yn hofran dros wyneb y dŵr. A dwedodd Duw, "Dw i eisiau golau!" a daeth golau i fod. Dyma Duw yn gwahanu'r golau oddi wrth y tywyllwch. Rhoddodd Duw yr enw "dydd" i'r golau a'r enw "nos" i'r tywyllwch, ac roedd nos a dydd ar y diwrnod cyntaf.		
2	Wedyn dwedodd Duw, "Dw i eisiau cromen o aer rhwng y dyfroedd, i wahanu'r dŵr yn ddau." A dyna ddigwyddodd. Gwnaeth Duw gromen o aer, ac roedd yn gwahanu'r dŵr oddi tani oddi wrth y dŵr uwch ei phen. Rhoddodd Duw yr enw "awyr" iddi, ac roedd nos a dydd ar yr ail ddiwrnod.		

3	Ar y trydydd diwrnod dwedodd Duw, "Dw i eisiau i'r dŵr sydd dan yr awyr gasglu i un lle, er mwyn i ddaear sych ddod i'r golwg." A dyna ddigwyddodd. Rhoddodd Duw yr enw "tir" i'r ddaear, a "moroedd" i'r dŵr. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda.	
4	Yna dwedodd Duw, "Dw i eisiau i laswellt dyfu o'r tir, a phob math o blanhigion sydd â hadau ynddyn nhw, a choed ffrwythau. Bydd yr hadau ynddyn nhw yn gwneud i fwy o'r planhigion gwahanol hynny dyfu."	
5	A dyna ddigwyddodd. Roedd y tir wedi ei orchuddio gyda glaswellt a phlanhigion a choed o bob math, â'u hadau eu hunain ynddyn nhw.	
6	Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda, ac roedd nos a dydd ar y trydydd diwrnod.	
7	Ar y pedwerydd diwrnod gosododd Duw yr haul, y lleuad a'r sêr yn eu lle. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda.	

8	Creodd Duw y creaduriaid enfawr sydd yn y môr, a'r holl bethau byw eraill sydd ynddo, a'r holl wahanol fathau o adar hefyd. Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda. A dyma Duw yn eu bendithio nhw, a dweud, “Dw i eisiau i chi gael haid o rai bach, nes eich bod chi'n llenwi'r dŵr sydd yn y môr, a dw i eisiau llawer o adar ar y ddaear.” Ac roedd nos a dydd ar y pumed diwrnod.	
9	Ar y chweched diwrnod dwedodd Duw, "Dw i eisiau i greaduriaid byw o bob math lenwi'r ddaear: anifeiliaid, ymlusgiaid a phryfed, a bywyd gwyllt o bob math.” A dyna ddigwyddodd.	
10	Gwnaeth Duw bob math o greaduriaid gwyllt, pob math o anifeiliaid, ac ymlusgiaid a phryfed gwahanol i fyw ar y ddaear.	
11	Roedd Duw yn gweld bod hyn yn dda.	

12	Yna dwedodd Duw, “Gadewch i ni wneud pobl yn ddelw ohonon ni'n hunain, i fod yn debyg i ni; i fod yn feistri sy'n gofalu am bopeth — y pysgod yn y môr, yr adar yn yr awyr, yr anifeiliaid, y ddaear gyfan a'r holl greaduriaid a phryfed sy'n byw arni.” Felly dyma Duw yn creu pobl ar ei ddelw ei hun.	
13	Dyma'r ARGLWYDD Dduw yn siapio dyn o'r pridd. Wedyn chwythodd i'w ffroenau yr anadl sy'n rhoi bywyd, a daeth y dyn yn berson byw. Yna dyma'r ARGLWYDD Dduw yn plannu gardd tua'r dwyrain, yn Eden, a rhoi'r dyn roedd wedi ei siapio yno.	
14	Dwedodd yr Arglwydd wrth y dyn, "Cei fwyta ffrwyth unrhyw goeden yn yr ardd."	
15	Ond, yng nghanol yr ardd yr oedd 2 goeden sbesial. Dwedodd yr Arglwydd wrth y dyn, "Paid bwyta ffrwyth y goeden sy'n rhoi gwybodaeth am bopeth — da a drwg. Pan wnei di hynny byddi'n siŵr o farw.”	
16	Roedd yr ARGLWYDD Dduw wedi siapio pob math o anifeiliaid ac adar o'r pridd. Y dyn oedd yn rhoi enw i bob un ohonyn nhw.	

17	Rhoddodd enwau i'r anifeiliaid, i'r adar, ac i'r bywyd gwyllt i gyd.	
18	Dwedodd yr ARGLWYDD Dduw wedyn, “Dydy e ddim yn beth da i'r dyn fod ar ei ben ei hun. Dw i'n mynd i wneud cymar iddo i'w gynnal.”	
19	Dyma'r ARGLWYDD Dduw yn gwneud i'r dyn gysgu'n drwm. Cymerodd ddarn o ochr y dyn, a rhoi cnawd yn ei le. Wedyn dyma'r ARGLWYDD Dduw yn ffurfio dynes allan o'r darn oedd wedi ei gymryd o'r dyn, a dod â hi at y dyn.	
20	A dyma'r dyn yn dweud, “O'r diwedd! Un sydd yr un fath â fi! Asgwrn o'm hesgyrn, a chnawd o'm cnawd. ‘Dynes’ fydd yr enw arni, am ei bod wedi ei chymryd allan o ddyn.” Dyna pam mae dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn cael ei uno â'i wraig. Maen nhw'n dod yn uned deuluol newydd.	
21	Roedd y dyn a'i wraig yn hollol noeth, a doedd ganddyn nhw ddim cywilydd.	

22	Felly gorffennodd Duw y gwaith o greu y bydysawd a phopeth sydd ynddo. Ar y seithfed diwrnod dyma Duw yn gorffwys, am ei fod wedi gorffen ei holl waith. Bendithiodd Duw y seithfed diwrnod a'i wneud yn ddiwrnod arbennig, am mai dyna'r diwrnod roedd e wedi gorffwys ar ôl gorffen y gwaith o greu.	
23	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	